
CYTUNDEB PARTNERIAETH AR GYFER IECHYD MEWN CARCHARDAI YNG NGHYMRU

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu blaenoriaethau y mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cytuno arnynt er mwyn gwella iechyd a llesiant y rheini sydd yn y carchar yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn cydnabod rhwymedigaethau statudol unigryw pob sefydliad partner, gan adeiladu ar y nod a rennir o sicrhau bod y rheini sydd yn y carchar yn cael byw mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant, lle mae mynediad at wasanaethau iechyd o safon gyfatebol i'r gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned. Mae hyn yn cefnogi'r nod cyffredinol y dylai'r carchar fod yn lle i'r unigolyn gael cyfle i newid cyfeiriad ei fywyd.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r holl bartïon wedi cytuno i weithio tuag at gyflawni'r tri amcan a nodir yn nogfen Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol i Gymru ar gyfer sicrhau bod carchardai, a gwasanaethau iechyd mewn carchardai. Y tri amcan yw:

1. Darparu gwasanaethau iechyd a gofal sy'n addas i'r dyfodol
2. Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
3. Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell

Dyma'r sefydliadau partner sy'n rhan o'r cytundeb hwn:

- Mae **HMPPS yng Nghymru** yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rheoli troseddwyd yng Nghymru. Mae'n gyfrifol am Garchardai Sector Cyhoeddus a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, ac mae ganddo gyfrifoldebau rheoli contractau mewn perthynas â'r carchar preifat *HMP & YOI Parc*, a'r *Wales Community Rehabilitation Company* (CRC). Mae'r gwasanaethau hyn yn canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd, ac adsefydlu troseddwyd, gan leihau'r risg y byddant yn troseddu eto.
- Mae **Llywodraeth Cymru** yn gyfrifol am wasanaethau iechyd mewn carchardai sector cyhoeddus.
- Mae **Byrddau Iechyd Lleol** yn gyfrifol am gomisiynu a gweithredu cynllun gwasanaethau iechyd mewn carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru.
- Mae **Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn un o sefydliadau'r GIG sy'n darparu cyngor annibynnol proffesiynol ar iechyd y cyhoedd a gwasanaethau er mwyn diogelu a gwella iechyd a llesiant pobl Cymru, gan gynnwys y rheini sydd yn y carchar.

Ein datganiad ar y cyd ar iechyd a llesiant ar gyfer y rheini sydd yn y carchar

Mae pob parti'n cydnabod bod y rheini sydd yn y carchar yn boblogaeth agored i niwed, sydd yn aml ag anghenion cymhleth a lefelau uchel o iechyd gwael, yn aml o ganlyniad i anghydraddoldebau iechyd (WHO, 2016; Anders, 2017). Gyda'n gilydd rydym yn awyddus i sicrhau bod carchardai yn amgylcheddau sy'n hyrwyddo iechyd, drwy ddarparu gwasanaethau o safon sy'n canolbwyntio ar y person.

Rydym yn awyddus i wneud y gorau o'r cyfle sydd gennym, tra bo'r unigolyn yn y carchar, i sicrhau fod ei statws iechyd yn well pan fydd yn dychwelyd i fyw yn y gymuned. Mae'r cytundeb partneriaeth hwn yn cydnabod bod gan wasanaethau iechyd a chyfiawnder rôl ar y cyd ar gyfer cyflawni hyn.

Mae pob parti yn gytûn bod angen i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gael ei gefnogi drwy integreiddio'r gwasanaethau hyn â gwasanaethau yn y gymuned, gan fod y rheini sydd yn y carchar yn dod o gymunedau ac y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn dychwelyd i'w hardal leol. Rydym yn cydnabod y gall nifer mawr o fanteision ddeillio o wella iechyd a llesiant y rheini sydd yn y carchar, nid yn unig i unigolion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach, ond hefyd o ran helpu i'w hadsefydlu, gan leihau'r risg y byddant yn troseddu eto, ac o ran helpu i gynnal amgylchedd diogel yn y carchar ei hun.

Er mwyn cyflawni eu hymrwymiad i wella iechyd a llesiant y rheini sydd yn y carchar yng Nghymru, mae'r holl bartïon wedi cytuno i ganolbwyntio ar y pedwar maes blaenoriaeth canlynol. Caiff pob blaenoriaeth ei datblygu'n ffrwd waith gyda chylch gorchwyl a dangosyddion canlyniadau ar wahân. Felly, drwy fod yn rhan o'r cytundeb hwn, bydd pob parti yn ymrwymo i gefnogi a gwireddu'r blaenoriaethau canlynol:

1. Sicrhau bod amgylcheddau yng ngharchardai Cymru yn hyrwyddo iechyd a llesiant i bawb

“Pan rydw i yn y carchar, dw i eisiau gallu cysgu'n dda, bwyta'n iach, siarad â fy nheulu, a chael help i gael swydd, fel na fydda i'n debygol o gael fy anfon i'r carchar eto”

Bydd y grŵp hwn yn ystyried effeithiau amgylcheddol ar iechyd a llesiant pobl yn y carchar, sef effeithiau gan ffactorau megis maeth, cwsig, gweithgarwch, cyflogaeth, addysg, anghenion amgylcheddol pobl hŷn, cymorth cymdeithasol, a mynediad at gynlluniau hyrwyddo iechyd lleol a chenedlaethol sydd ar gael yn y gymuned. Bydd yn sicrhau gwelliannau drwy alluogi pobl sydd yn y carchar i fyw mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd, lle mae'r un mynediad i wasanaethau hyrwyddo iechyd ar gael iddynt â phobl sy'n byw yn y gymuned.

2. Datblygu gwasanaethau cyson ym meysydd iechyd meddwl, llesiant meddyliol, ac anableddau dysgu ar draws yr holl garchardai, sydd wedi eu teilwra i ymateb i anghenion.

“Dw i eisiau gallu cael gwasanaethau iechyd meddwl o safon i fy helpu wrth imi symud o un carchar i'r llall, er mwyn datblygu strategaethau a fydd yn fy helpu i ymdopi â bod yn y carchar, ac a fydd yn parhau ar ôl imi gael fy rhyddhau”

Bydd y grŵp hwn yn ystyried deddfwriaeth iechyd meddwl a safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru, a sut y bydd hyn yn berthnasol i fywyd yn y carchar. Y nod yw datblygu set o safonau a dangosyddion cytûn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchar. Bydd hyn yn cynnwys dementia, gofal mewn argyfwng, anableddau dysgu, anaf i'r ymennydd, ac anhwylderau ar y sbectrwm awtistiaeth.

3. Cynhyrchu llwybr clinigol safonol ar gyfer rheoli'r camddefnyddio sylweddau mewn carchardai yng Nghymru

"Dw i eisiau gallu cael triniaeth ddiogel am gamddefnyddio sylweddau yr un fath ag y byddwn i'n gallu ei chael yn y gymuned, ac i gael help seicogymdeithasol ochr yn ochr â'r driniaeth honno. Dw i eisiau llwybr sy'n parhau ar ôl imi ddychwelyd i'r gymuned pa fydda i'n cael fy rhyddhau"

Bydd y grŵp yn datblygu llwybr ar gyfer rheoli camddefnyddio sylweddau sy'n rhoi sylw i'r ddarpariaeth o wasanaethau clinigol a seico -gymdeithasol mewn carchardai yng Nghymru. Bydd y grŵp yn bwrw ymlaen â'r gwaith drwy ddatblygu dull gweithredu sy'n integreiddio'r rolau iechyd a chyfiawnder sydd ar waith o adeg derbyn i'r carchar i'r adeg rhyddhau ohono, waeth beth yw hyd y ddedfryd.

4. Datblygu safonau ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn carchardai yng Nghymru

"Dw i eisiau cael y meddyginiaethau iawn yn ddiogel ac i gael cynllun meddyginiaethau sy'n parhau wrth imi symud o un carchar i'r llall ac yn ôl adre"

Bydd y grŵp hwn yn gweithio tuag at sicrhau bod dull gweithredu cyson ar waith ar gyfer rhagnodi mewn carchardai yng Nghymru, drwy ddatblygu safonau ar gyfer rheoli meddyginiaethau a fformiwlâu ar gyfer Cymru gyfan. Bydd yn ystyried sut y dylid cyflenwi a chadw meddyginiaethau ac atal ailgyfeirio. Bydd yr angen i gael mynediad at therapïau amgen a gynnigir yn y gymuned yn cael ei adlewyrchu yn ei waith.

Llywodraethu

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn y cytunwyd arnynt, bydd grŵp trosolwg iechyd carcharorion yn cael ei sefydlu, a bydd pob un o'r ffrydiau gwaith yn adrodd i'r grŵp hwnnw.

Caiff y cytundeb partneriaeth hwn ei gefnogi gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n disgrifio protocolau ar gyfer ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth.

Cyfeiriadau

Anders (2017) Rebalancing Act: Adnodd ar gyfer cyfarwyddwyr iechyd cyhoeddus, comisiynwyr heddlu a throseddau, gwasanaeth yr heddlu, a chomisiynwyr iechyd a chyfiawnder eraill, darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau, Asiantaeth *Revolving Doors*, Llundain. Ar gael yn: <http://www.revolving-doors.org.uk/file/2049/download?token=4WZPsE8I> [Accessed 30 May 2018]

WHO (2016) Prisons and Health, World Health Organisation, Copenhagen. Ar gael yn: <http://www.euro.who.int/en/health-topics/health-determinants/prisons-and-health/publications/2014/prisons-and-health>

LLINELL AMSER Y CYTUNDEB PARTNERIAETH

Blwyddyn 1: 2018-2019

Cwblhau'r blaenoriaethau cenedlaethol a rennir a'r cynllun cyflawni y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru a HMPPS

Rhoi strwythur ar waith i oruchwyllo'r gwaith o weithredu'r cynllun cyflawni

Gwneud y blaenoriaethau'n rhan annatod o'r mecanwaith presennol neu sefydlu gweithgorau lle bo angen

Y gweithgorau i gytuno ar raglen waith ar gyfer eu maes



Blwyddyn 2: 2019-2020

Gweithredu cynllun gwaith ar gyfer pob blaenoriaeth

Datblygu dangosyddion ar gyfer pob maes o flaenoriaeth

Adolygu cynnydd yn erbyn yr hyn y gellir cyflawni ar ddiwedd blwyddyn 2

Adolygu cynnydd y strwythur llywodraethu

Cyhoeddi cynllun ar gyfer blynyddoedd 3, 4, a 5



Blwyddyn 3: 2020-2021

Adolygu blaenoriaethau a chyflwyno meysydd ychwanegol os bydd angen

Blwyddyn 4: 2021-2022

Blwyddyn 5: 2022-2023